Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Aberteifi

Stryd Napier
Aberteifi
Ceredigion
SA43 1EH

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Aberteifi

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Aberteifi |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 399 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 319 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 44 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 28.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 11.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 5.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 6.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2015 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/03/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae’r ysgol yn gymuned groesawgar sy’n rhan bwysig o’i chymuned. Mae disgyblion yn teimlo’n hapus a diogel yno gan wybod bod bob amser oedolion y gallant siarad â nhw pe bai ganddynt unrhyw bryder. Mae gan yr holl staff ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.

Mae’r pennaeth ac arweinwyr eraill yn arwain yr ysgol yn effeithiol. Ar y cyfan, mae’r arweinwyr yn adnabod agweddau o waith yr ysgol sydd angen eu gwella, a’r camau sydd eu hangen i wireddu hyn, yn briodol. Maent yn ymateb yn dda i farn staff, rhieni a disgyblion ac mae hyn yn cyfrannu’n llwyddiannus at y naws gynhwysol sy’n bodoli rhwng yr ysgol a’r gymuned ehangach.

Mae’r holl staff yn cydweithio’n llwyddiannus i ddarparu cwricwlwm diddorol i’r disgyblion, sy’n cynnwys dysgu am eu cymuned a’i hanes a diwylliant lleol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy’n briodol i’w hoedrannau a’u mannau cychwyn yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn datblygu eu darllen yn fedrus, gan ymchwilio am wybodaeth yn effeithiol. Er hyn, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu’n ymestynnol ac annibynnol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn gweithio’n ddiwyd i sicrhau bod y rhan fwyaf o weithgareddau yn ennyn diddordeb  disgyblion, gan gynnig adborth a chymorth defnyddiol iddynt, lle bo’n berthnasol. Er hyn, nid yw’r gweithgareddau dysgu bob amser yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau annibynnol am eu dysgu.

Mae gan staff berthynas gadarnhaol â rhieni. Mae arweinwyr wedi adeiladu perthynas waith lwyddiannus rhwng y cartref a'r ysgol. Mae llywodraethwyr yn ymwybodol o bryd i gefnogi’r ysgol a phryd i’w herio, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o effaith gwaith bob dydd yr ysgol ar les a dysgu’r disgyblion.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Ymestyn y cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm

A2. Darparu cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am eu dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae Ysgol Gynradd Aberteifi yn gymuned groesawgar, hapus a gofalgar. Mae'r pennaeth yn gweithio'n hynod o effeithiol gyda staff, llywodraethwyr a disgyblion i sicrhau amgylchedd diogel a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae staff yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol â disgyblion ac yn meithrin ymdeimlad cryf o gymuned ar draws yr ysgol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ac maent yn cyfathrebu hyn yn glir. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn mwynhau eu dysgu ac yn ymddwyn yn dda.

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu lles a baich gwaith staff yn ddoeth. O ganlyniad, mae staff yn teimlo wedi eu cefnogi a'u gwerthfawrogi. Ar draws yr ysgol, mae yna ymdeimlad cryf o waith tîm. Enghraifft nodedig o hyn yw'r modd y mae staff yn cydweithio i adnabod anghenion disgyblion unigol. Maent yn adnabod y disgyblion yn hynod o dda ac yn darparu cymorth amserol a phriodol sydd yn effeithio'n gadarnhaol iawn ar eu dysgu a'u lles. Mae'r trefniadau ar gyfer nodi ac ymateb i anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn flaengar. Mae staff yn darparu cefnogaeth cynhwysfawr i gynorthwyo'r disgyblion ag ADY, gan gynnwys i hybu lles a rheoli emosiynau. Maent yn cynnwys disgyblion, rhieni a barn asiantaethau allanol yn effeithiol i gynllunio'r gefnogaeth a gwerthuso'i heffaith. Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY a disgyblion y mae tlodi ac anfantais yn cael effaith andwyol arnynt, yn gwneud cynnydd llwyddiannus wrth ddatblygu eu medrau o'u mannau cychwyn.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn modelu iaith yn effeithiol. Mae staff yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen yn drylwyr yn eu hymagwedd at gefnogi anghenion iaith cynnar disgyblion. Mae'r ysgol yn adeiladu ar y gwaith hwn yn llwyddiannus wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus ac yn datblygu ystod werthfawr o eirfa a'i defnyddio'n fedrus mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae athrawon yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer datblygu medrau mynegiannol a chreadigol disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am hanes a thaith yr Afon Teifi ac yn cydweithio â chwmni theatr lleol i greu sioe bypedau raenus gan berfformio'r cynhyrchiad i'r gymuned.

Mae gwaith diweddar i wella medrau darllen disgyblion yn cael effaith gadarnhaol. Mae medrau darllen cynnar y rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n briodol, gan ddarparu sylfaen gref ar gyfer datblygiad pellach. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn darllen gyda chywirdeb, hyder a brwdfrydedd. Yn gyffredinol, defnyddiant eu medrau darllen yn fedrus i ymchwilio a chaffael gwybodaeth o ystod o ffynhonellau amrywiol. Ar frig yr ysgol, mae'r darllenwyr mwyaf hyderus yn darllen gyda mynegiant cadarn ac yn dehongli testunau'n effeithiol. Er enghraifft, maent yn trafod eu hoff ffurfiau llenyddol yn aeddfed, gan gyfeirio at awduron fel T. Llew Jones gan egluro eu hoffter o gymeriadau mewn nofelau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cynnydd cryf wrth amgyffred cysyniadau mathemategol allweddol. Erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion yn defnyddio medrau rhifedd yn hyderus ac yn eu cymhwyso mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Ar y cyfan, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau digidol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er hyn, nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau hysgrifennu yn ddigon cyson ar draws yr ysgol.

Mae'r athrawon yn cydweithio'n fwriadus er mwyn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sydd wedi'i wreiddio yn yr ardal leol. Darperir cyfleoedd buddiol i'r disgyblion ddysgu am eu hardal, eu hunaniaeth Gymreig a'r byd ehangach. Mae hyn yn ei dro yn eu paratoi i fod yn ddinasyddion cydwybodol a gwybodus. Mae staff yn cefnogi ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ystyried safbwyntiau a gwerthoedd eraill ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o unigolion sy'n wahanol iddyn nhw.

Ar draws yr ysgol, mae'r addysgu yn gadarn. Mae'r athrawon yn rhannu amcanion y dysgu ac yn holi disgyblion yn bwrpasol. Mae hyn yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn fuddiol ac yn ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wahanol gyd-destunau ymhellach. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol ac yn mwynhau'r dysgu. Fodd bynnag, mae gor-arwain y dysgu ar adegau yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau'n annibynnol.

Mae'r berthynas gynhyrchiol sy'n bodoli rhwng yr ysgol, y gymuned a'r rheini yn gryfder amlwg. Mae'r staff yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod rhieni'n derbyn gwybodaeth rheolaidd am gynnydd eu plant. Maent yn caffael barn rheini yn gyson, gan ddefnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol i wneud gwelliannau i'r ddarpariaeth.

### Ciplun: Rôl ganolog yr ysgol o fewn y gymuned a chydweithio â phartneriaethau cymunedol

Mae'r ysgol yn rhan annatod o gymuned Aberteifi. Maent yn cynnig ystod o gyfleoedd cyfoethog i gefnogi teuluoedd ac ymgysylltu â nhw. Maent yn cydweithio â'r coleg lleol er mwyn codi ymwybyddiaeth disgyblion a rhieni o gyfleoedd byd gwaith ac yn darparu cyfleoedd i rieni ddysgu Cymraeg ar y cyd â'u plant. Trwy'r ymdrechion hyn ac uchelgais i gryfhau'r ddarpariaeth hon ymhellach, mae'r ysgol yn dod yn ganolbwynt hanfodol, sy'n cynnig cymorth ymarferol ac yn meithrin ymdeimlad o berthyn i bawb.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o dystiolaeth i ddatblygu dulliau addysgu a chyfoethogi profiadau. Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i waith yr ysgol. Maent yn adnabod yr ysgol a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu yn dda. Yn gyffredinol, mae adnabyddiaeth y llywodraethwyr o berfformiad yr ysgol yn briodol ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i herio arweinwyr yn fedrus am gynnydd disgyblion.

Mae arweinwyr yn rheoli perfformiad a datblygiad yr holl staff yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn darparu ystod gyfoethog o ddatblygiad proffesiynol ar gyfer staff sydd, yn ei dro, yn gwella'r ddarpariaeth. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys hyfforddiant buddiol i godi ymwybyddiaeth staff o effaith trawma ar ddisgyblion. O ganlyniad, mae staff ar draws yr ysgol yn darparu cefnogaeth hynod effeithiol wrth gefnogi lles holl ddisgyblion yr ysgol.

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n ddoeth. Mae arweinwyr yn defnyddio grantiau fel y grant datblygu disgyblion yn flaengar i sicrhau bod lefelau staffio addas sy'n canolbwyntio ar anghenion disgyblion. Er enghraifft, mae arweinwyr yr ysgol yn defnyddio'r grant yn fedrus i gynnig darpariaeth werthfawr Hafan Teifi a Twts Teifi i gefnogi lles ac anghenion dysgu'r disgyblion.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad.

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/05/2025